



Stopio Cosbi Corfforol

Nodyn Briffio

Mae cosbi corfforol nawr yn anghyfreithlon yng Nghymru. Ym mis Ionawr 2020, pasiodd y Senedd Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ("y Ddeddf"). Y nod cyffredinol oedd helpu i amddiffyn hawliau plant a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn yng Nghymru.

Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 20 Mawrth 2020 a daeth i rym ar 21 Mawrth 2022.

Ni wnaeth y gyfraith newydd greu trosedd newydd; yn hytrach, mae wedi dileu amddiffyniad cyfreithiol 160 mlwydd oed, a oedd yn cyfleu'r neges ei bod yn dderbyniol i blant gael eu cosbi'n gorfforol gan eu rhieni neu'r rheiny sydd ag awdurdod rhiant. Dros y blynyddoedd, roedd deddfwriaeth wedi cyfyngu ar yr amgylchiadau lle gellid defnyddio'r amddiffyniad, ac wedi cyfyngu ar y lleoliadau lle gellid cosbi plant yn gorfforol. Roedd cosb gorfforol eisoes wedi'i gwahardd mewn ysgolion, cartrefi plant, cartrefi

gofal maeth awdurdodau lleol, a lleoliadau gofal plant. Mae yn awr hefyd yn anghyfreithlon yn y cartref ac mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio.

Cosb gorfforol yw pan fo grym corfforol yn cael ei ddefnyddio i gosbi plentyn. Er mai smacio sy'n dod i'r meddwl gan amlaf, gall fod sawl ffurf ar gosb gorfforol, gan gynnwys taro, slapio ac ysgwyd. Mae arfer a ystyriwyd yn iawn 30 mlynedd yn ôl yn llai derbyniol heddiw. Mae rhieni a gwarcheidwaid plant ifanc yn llai tebygol o fod yn gefnogol o gosb gorfforol.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yw'r sylfaen ar gyfer polisi Llywodraeth Cymru ar blant. Mae gwahardd cosb gorfforol i blant yn cyd-fynd ag erthygl 19 CCUHP, sef yr hawl i ddiogelu rhag pob math o drais. Mae Cymru wedi ymuno â thros 60 o wledydd ledled y byd sydd eisoes wedi gwahardd cosb gorfforol tuag at blentyn.

Mae'r gyfraith newydd wedi:

- Dileu'r amddiffyniad cosb resymol. Mae hyn yn golygu na all neb gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, gan gynnwys yn y cartref.
- Rhoi i blant yr un amddiffyniad cyfreithiol rhag ymosodiad ag oedolion.
- Cael gwared ar fwllch cyfreithiol, gan olygu na fydd yn bosib defnyddio'r amddiffyniad cosb resymol mwyach mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio. Mae'r lleoliadau heb eu rheoleiddio hyn yn cynnwys rhai manau dysgu, addoli, chwarae neu hamdden, neu mewn lleoliadau eraill nad ydynt yn cael eu rheoleiddio yn yr un ffordd ag ysgolion neu leoliadau gofal plant, er enghraifft.
- Gwneud y gyfraith yn fwy clir, fel bod plant, rhieni, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn deall y gyfraith. Bydd hyn yn gwella gallu pobl broffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd i ddiogelu plant trwy gael gwared â'r dryswch sydd yn bosib ar hyn o bryd ynglŷn â beth yw lefel dderbyniol o gosb gorfforol. Hefyd, bydd yn galluogi pobl broffesiynol i ddarparu cyngor clir a diamwys i rieni a gofalwyr fod unrhyw lefel o gosb gorfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru.
- Helpu i amddiffyn hawliau plant a rhoi arwydd clir na chaiff cosbi plant yn gorfforol ei oddef yng Nghymru.

I gael rhagor o wybodaeth am stopio cosbi corfforol yng Nghymru, ewch i: llyw.cymru/StopioCosbiCorfforol neu cysylltwch â: StopioCosbiCorfforol@llyw.cymru

I gael gwybodaeth ac awgrymiadau am rianta cadarnhaol, ewch i *Magu Plant*. **Rhowch amser iddo:** llyw.cymru/rhowchamseriddo

Stopio Cosbi
Corfforol

Ending Physical
Punishment



Nid yw'r gyfraith newydd:

- Yn creu trosedd newydd – nid yw'n gwneud mwy na dileu'r amddiffyniad cosb resymol.
- Yn atal rhieni rhag disgyblu eu plant – mae gwahaniaeth mawr rhwng disgyblu a chosbi'n gorfforol. Gall rhieni ddefnyddio dulliau eraill yn lle cosb gorfforol, fel ffordd o gynnal disgyblaeth a mynd i'r afael ag ymddygiad gwael.
- Yn ymyrryd â gallu rhiant i fod yn rhiant – gall rhieni, wrth gwrs, ymyrryd yn gorfforol i gadw plentyn yn ddiogel rhag niwed, neu helpu â gweithgareddau dydd i ddydd, fel gwisgo neu hylendid a glendid.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael, fel adolygiad gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru erbyn hyn), yn cefnogi'r farn y gall deddfwriaeth i wahardd cosb gorfforol gyfrannu at newidiadau yn yr agweddau tuag at gosb gorfforol, a'r defnydd ohoni, os ceir ymgyrchoedd gwybodaeth gynaledig a chymorth i rieni i gyd-fynd â hi. Hefyd, daethant i'r casgliad fod y mwyafrif o ymchwilyr yn y maes hwn o'r farn bod gan bob math o gosb gorfforol o dan unrhyw amodau y potensial i fod yn niweidiol i blant.

Nod Llywodraeth Cymru wrth wneud cosbi corfforol yn anghyfreithlon yw helpu i amddiffyn plant a'u hawliau. Ond mae'n cydnabod, drwy ddileu'r amddiffyniad, y gellir cyhuddo neu erlyn nifer bach o rieni am drosedd mewn amgylchiadau lle na fyddai hynny wedi digwydd o'r blaen.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhieni, trwy ddarparu cyngor, cymorth a chanllawiau a bydd yn parhau i godi ymwybyddiaeth am y newid yn y gyfraith; y bwriad yw peidio â dod â phobl gerbron y system cyfiawnder troseddol ond annog mwy a mwy o bobl i roi'r gorau i ddefnyddio cosb gorfforol. Bydd £2.4 miliwn rhwng 2022-23 a 2024-25 ar gael i awdurdodau lleol Cymru i ariannu hyn, ar ben yr ychydig o dan £500,000 o gyllid paratoadol a neilltuyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Bydd yn



golygu, mewn achosion pan fo'r heddlu yn credu ei bod yn briodol cynnig datrysiad y tu allan i'r llys, y bydd opsiwn o gynnig cymorth i helpu i osgoi aildrosedd. Bydd hyn, fodd bynnag, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Nid yw [Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#) wedi newid o ganlyniad i'r gyfraith newydd, ond mae [canllaw ymarfer newydd](#) wedi'i ddrafftio i ategu'r Gweithdrefnau Diogelu presennol.

Mae'r gyfraith newydd yn rhan o becyn cymorth llawer ehangach ar gyfer plant a'u rhieni. Mae hyn yn cynnwys ymgyrch *Magu Plant*. *Rhowch amser iddo* Llywodraeth Cymru, sy'n rhedeg ers peth amser. Mae'n cynnig cyngor arbenigol ac ymarferol ar fagu plant yn gadarnhaol i annog ymddygiad da gan blant a phobl ifanc, a dewisiadau eraill yn lle cosb gorfforol. Mae cymorth sydd wedi'i dargedu drwy raglenni fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf hefyd yn cynnig cymorth a chynngor ar fagu plant, ochr yn ochr â gwasanaethau cyffredinol a ddarperir gan fydwragedd, ymwelwyr iechyd, meddygon teulu, llywodraethau lleol a sefydliadau trydydd sector, er enghraifft.

Mae Llywodraeth Cymru, gan ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, yn disgwyl y bydd achosion o gosbi'n gorfforol yn gostwng dros gyfnod. Bydd y newid yn y gyfraith, ochr yn ochr â chodi ymwybyddiaeth a chymorth parhaus ar gyfer rhieni, i gyd yn cyfrannu at hyn. Plant a'u hawliau sydd wrth wraidd y gyfraith hon gan na ddylai cosb gorfforol fod yn rhan dderbyniol o unrhyw blentyndod.

I gael rhagor o wybodaeth am stopio cosbi corfforol yng Nghymru, ewch i: llyw.cymru/StopioCosbiCorfforol neu cysylltwch â: StopioCosbiCorfforol@llyw.cymru

I gael gwybodaeth ac awgrymiadau am rianta cadarnhaol, ewch i *Magu Plant*. *Rhowch amser iddo*: llyw.cymru/rhowchamseriddo

Stopio Cosbi
Corfforol

Ending Physical
Punishment

